Hawdd ei Ddeall

Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol
National Collaborative Commissioning Unit

# Gwasanaethau Cleifion Mewnol Anabledd Dysgu

## Adolygiad o beth sydd yng Nghymru a sut mae adeiladau yn gallu bod yn well

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **GIG Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gwella Amgylcheddau, Gwella Bywydau**'.

**Ebrill 2024**

**WG 50387 ISBN 978-1-83625-487-4**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 22**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **GIG Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Website:** https://cbc.gig.cymru

**Email:** GIG.NCCU@wales.nhs.uk

**Phone:** 01443 744928

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Beth sydd yn y llyfryn yma** ........ 4

**Beth mae pobl ei angen** ........ 6

**Amgylcheddau Galluogi - beth mae hyn yn feddwl?** ........ 8

**Beth sydd yng Nghymru nawr** ........ 11

Gwasanaethau Asesu a Thriniaeth ........ 12

Gwasanaethau Diogelwch Isel ........ 13

Gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus ........ 14

Gwasanaethau Mynd Allan wedi ei Reoli ac heb ei Reoli ........ 15

Adolygiad o Unedau Cymru ........ 16

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod** ........ 17

**Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd** ........ 20

**Geiriau anodd** ........ 22

# Beth sydd yn y llyfryn yma



Mae'r adolygiad yma  yn edrych ar sut mae gwasanaethau **cleifion mewnol** anabledd dysgu yn cael eu darparu yng Nghymru.



**Claf mewnol** ydy rhywun sydd angen gofal a thriniaeth ysbyty. Ac mae'n rhaid iddyn nhw aros mewn ysbyty i gael y driniaeth honno.



Mae gennym ni **wasanaethau cleifion mewnol arbenigol** ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Maen nhw yn cael eu darparu mewn gwahanol fathau o adeiladau.



Mae'r adolygiad yma am yr adeiladau rydyn ni yn eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau yma. Ac os ydyn nhw yn ddigon addas i ateb anghenion pobl.



Mae llawer o'r adeiladau yn hen iawn. A dydyn nhw ddim yn cael eu rhannu'n deg ar draws Cymru.




Mae llawer o'r adeiladau yn bell i ffwrdd o'r man lle mae pobl yn byw. Felly, dydy cleifion ddim yn rhan o'u cymuned wrth aros yno.



Dydy'r adeiladau ddim yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus pan fyddan nhw yn aros yno.



Maen nhw i gyd yn wahanol iawn hefyd. Ac yn cael eu rhedeg mewn gwahanol ffyrdd.




Mae'r llyfryn yma am y gwahaniaethau yma.



Rydyn ni wedi edrych i weld sut mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn y gwahanol fathau yma o adeiladau. A dweud sut rydyn ni yn credu mae'r adeiladau yma yn gallu cael eu gwella.

# Beth mae pobl ei angen



Mae ymchwil wedi dangos bod angen i gleifion gael y gofal a'r cymorth cywir i wella.



Y lle delfrydol i bobl gael gofal a chymorth ydy yn eu cymuned.



Ond weithiau mae angen i bobl ag anableddau dysgu fod mewn ysbyty. Mae hyn oherwydd bod angen triniaeth ysbyty arnyn nhw.



Fe ddylai pobl fod mewn ysbyty am faint o amser maen nhw ei angen i gael triniaeth yn unig. Ond rydyn ni yn gwybod bod rhai pobl wedi bod mewn ysbyty am y rhan fwyaf o'u bywyd.



Pan fydd hyn yn digwydd, fe ddylai pobl gael y gefnogaeth orau i wella. Ac yn y lle gorau.



Fe ddylen nhw ddisgwyl cael gofal o ansawdd da sy'n ateb eu hanghenion, mewn adeiladau sy'n ddiogel ac sydd â'r cyfleusterau cywir.



# Amgylcheddau Galluogi - beth mae hyn yn feddwl?



Dyma derm sydd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio sut le ddylai adeiladau fod.

Mae **Amgylcheddau Galluogi** yn meddwl y dylai'r **lle** fod:



- Diogel.
- Preifat.



- Y lleiaf **cyfyngol** ag y bo modd. Mae hyn yn meddwl bod gan bobl y rhyddid i wneud beth maen nhw eisiau ei wneud. Os ydy pethau'n cael eu rhoi ar waith sy'n eu stopio rhag gwneud rhywbeth,  dim ond er mwyn eu cadw nhw'n ddiogel mae hyn.



- Cefnogi anghenion pob unigolyn.
- Helpu'r unigolyn i wella, cyn gynted â phosibl.



Pan fydd yr adeilad yn dda, mae hefyd yn haws i staff wneud eu gwaith yn dda.

Fe fydd **Galluogi Amgylchedd (lle)** yn cynnig pethau i'r claf fel:



- Golau naturiol.
- Mannau glân ac awyr iach.



- Ardaloedd tawel.



- Ardaloedd cymdeithasol.
- Fe ddylai pawb gael ystafell wely gyda'u hystafell ymolchi eu hunain.



- Fe ddylai fod lleoedd preifat.




- **Hygyrchedd.**

> Mae **hygyrchedd** yn meddwl bod pobl ag anghenion gwahanol yn gallu defnyddio rhywbeth. Er enghraifft, drysau mae cadeiriau olwyn yn gallu mynd drwyddyn nhw. Arwyddion sydd yn hawdd eu darllen.



- Fe ddylai fod amrywiaeth o weithgareddau.




- Fe ddylid ystyried diogelwch yn ofalus.




- Fe ddylai anghenion pobl gael eu hystyried a'u cynllunio.



Dyma'r math o bethau roedden ni'n  yn meddwl amdanyn nhw wrth edrych ar yr adeiladau.

# Beth sydd yng Nghymru nawr



Mae 28 o adeiladau ar draws Cymru sy'n darparu  gwasanaethau **cleifion mewnol** i bobl ag anabledd dysgu.

Mae ganddyn nhw lefelau gwahanol o ddiogelwch. Er enghraifft:



- larymau diogelwch




- ffyrdd gwahanol i bobl gadw eu heiddo yn ddiogel



- drysau ffrynt sydd ar gau yn y nos.



Maen nhw yn cynnig gwahanol fathau o gefnogaeth. Dyma nhw:

## Gwasanaethau Asesu a Thriniaeth



Mae’r rhain yn cefnogi pobl gydag **ymddygiad sy’n heriol**. Mae hyn yn meddwl ymddygiad anodd sydd yn gallu niweidio’r unigolyn neu’r rhai o’u cwmpas.



Fe ddylai pobl aros yma dim ond am faint o amser maen nhw ei angen. A hyd nes bod modd gallu dod o hyd i gartrefi parhaol sy’n ateb eu hanghenion yn llawn.




Mae **Mencap** wedi gwneud canllaw i bobl sy’n aros mewn unedau Asesu a Thriniaeth.




Mae’n dweud y dylai hawliau dynol pobl gael eu bodloni. Ac fe ddylen nhw gael cefnogaeth dda.



Mae 31 o welyau ar gael i bobl ar draws Cymru, mewn Gwasanaethau Asesu a Thriniaeth.

## Gwasanaethau Diogelwch Isel



Mae’r rhain ar gyfer pobl ag **anghenion cymhleth**. Mae hyn yn meddwl pobl sydd angen llawer o gefnogaeth yn eu bywydau. A dydyn nhw ddim yn gallu cael eu cefnogi mewn lleoedd llai diogel.



Mae 26 o welyau gyda’r math yma o gefnogaeth yng Nghymru.




Ond does dim un yn cael ei redeg gan y GIG. Ac maen nhw i gyd yn ne Cymru.

# Gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus



Mae’r rhain yn unedau ar gyfer pobl sydd angen cymorth tymor hirach.

Mae’r GIG yn talu am y gwasanaethau yma. Mae rhai mewn ysbytai ac mae rhai yn y gymuned.



Mae 67 o welyau ar draws Cymru.

## Gwasanaethau Mynd Allan wedi ei Reoli ac heb ei Reoli



Dyma'r  geiriau sydd yn cael eu defnyddio i ddisgrifio unedau sydd wedi eu cloi. A lle mai dim ond rhai pobl sy'n gallu mynd a dod ar adegau penodol. Efallai y bydd rheolau gwahanol ar gyfer pob uned ar gyfer sut a phryd mae'r cloeon yn cael eu defnyddio.



Mae pobl angen help ar gyfer problemau  iechyd meddwl y maen mhw wedi'u cael ers amser hir. Maen nhw yn ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd bob dydd.



Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddysgu sgiliau. Mae hyn er mwyn eu helpu i fod yn fwy annibynnol.



Mae 49 o welyau ar draws Cymru.

# Adolygiad o Unedau Cymru



Fe wnaethon ni edrych ar adeiladau oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau yma ar draws Cymru.



Fe wnaethon ni edrych ar bethau fel ystafelloedd gwely a mannau byw.



Fe wnaethon ni edrych i weld oedd staff yn gallu gwneud eu gwaith yn dda.



Fe wnaethon ni edrych ar lle roedd unedau wedi'u lleoli yng Nghymru. Er enghraifft, pa mor bell ydyn nhw o aelodau'r teulu.




Fe wnaethon ni hefyd edrych i weld pa mor ddiogel ydy unedau. Ac os ydy'r rheolau'n cael eu dilyn fel eu bod yn cael eu rhedeg yn dda.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Fe wnaethon ni weld fod llawer o'r adeiladau wedi cael eu defnyddio ar gyfer pethau eraill o'r blaen.



Mae hyn yn meddwl nad oedden nhw wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio fel mannau cymorth.



Mae rhai ar dir ysbytai lle mae llawer o wasanaethau eraill wedi cau. Mae hyn yn meddwl bod pobl yn cael eu torri i ffwrdd oddi wrth eraill.



Mae llawer o'r adeiladau yn hen iawn. Mae angen llawer o waith i'w gwneud nhw yn ddiogel ac yn addas.



Fe wnaethon ni weld bod **unedau diogelwch isel** yn bell i ffwrdd o'r gymuned.

Fe wnaethon ni weld fod pethau pwysig ar goll mewn rhai mannau. Er enghraifft:




- Botymau galw




- Allanfeydd tân diogel



- Ardaloedd ar gyfer dysgu sgiliau



Roedd pob uned yn wahanol o ran pa mor lân oedden nhw.



Mae rhai lleoedd yn llogi gwasanaethau glanhau. Mewn eraill, roedd rhaid i'r staff wneud y gwaith glanhau.



Fe wnaethon ni weld nad oedd digon o **dechnolegau cynorthwyol**.

Mae **technolegau cynorthwyol** yn meddwl offer sy'n helpu pobl anabl i fyw'n fwy annibynnol.



Roedd hyn yn meddwl y byddai'r staff yn gwneud pethau i bobl yn y pen draw. Yn lle cefnogi pobl i fod yn annibynnol.



Doedd y rhan fwyaf o leoedd ddim wedi cael eu sefydlu i gefnogi pobl â phroblemau symudedd. Er enghraifft, doedd rhai ddim yn cael eu codi. Roedd gan rai ardaloedd lle nad oedd modd defnyddio cadeiriau olwyn.




Doedd dim digon o arwyddion hawdd eu deall.

# Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd



1. Fe ddylai pob adeilad ddilyn yr un safonau a rheolau. Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod yr adeiladau'n ateb anghenion pobl.



2. Fe ddylai'r unedau edrych i weld sut y byddan nhw yn rheoli adeiladau ac gwaith trwsio yn dda.



3. Pan fydd gwasanaethau'n cael eu rhedeg gan fwy nag un sefydliad. Fe ddylai gwaith trwsio gael ei reoli yn ofalus.



4. Fe ddylid gwneud mwy i gefnogi pobl ag anghenion ychwanegol. Er enghraifft, trwy **dechnoleg gynorthwyol**.




5. Fe ddylai pobl allu deall gwybodaeth beth bynnag ydy eu anghenion.



6. Fe ddylai pob aelod o staff gael hyfforddiant tân. Ac fe ddylai pob uned edrych ar eu cynlluniau dianc rhag tân.



7. Fe ddylai Llywodraeth Cymru a’r GIG edrych ar gadw cofnodion cleifion ar-lein. Dyma gofnod am eich holl ofal a thriniaeth.



8. Fe ddylai staff gael yr help maen nhw ei angen i wneud eu gwaith yn dda.



9. Fe ddylai fod lleoedd i gyfarfod ag ymwelwyr. Ac fe ddylen nhw fod yn ddiogel.

# Geiriau anodd

### Cleifion mewnol

Claf mewnol ydy rhywun sydd angen gofal a thriniaeth ysbyty. Ac mae'n rhaid iddyn nhw aros mewn ysbyty i gael y driniaeth honno.

### Hygyrchedd

Mae hyn yn meddwl bod pobl ag anghenion gwahanol yn gallu defnyddio rhywbeth. Er enghraifft, drysau mae cadeiriau olwyn yn gallu mynd drwyddyn nhw. Arwyddion sydd yn gallu cael eu darllen yn hawdd.

### Technolegau cynorthwyol

Mae hyn yn meddwl offer sy'n helpu pobl anabl i fyw'n fwy annibynnol.